## *Academi Arian MSE* course trailer transcript

## Speaker: Martin Lewis:

**English**

'Shwmae, croeso i Academi Arian.' Hello and welcome to the Money Saving Expert Academy of Money. I'm Martin Lewis. Very excited that we're doing a Welsh language version of the MSE Academy of Money although I like to call it the 'Academoney'.

Apologies for my own lack of language skills, but it's wonderful that the Open University in Wales is translating the course into Welsh. I spent a year studying journalism at Cardiff University and it gave me a great appreciation for the Welsh language when I was there.

Now, let me just give you some background on what The Academoney is all about. It's a partnership between money saving expert and the Open University to give you free and independent financial education via crucially, an academic course.
We of course always talk about great guides and information, but actually sometimes it's best to study something formally so you can understand the various building blocks that put together to give you a true appreciation, so you can make better financial decisions in the future.

And one of the reasons that we wanted to do this is it's important in our society to end the cycle of bad financial decision-making. Financial education isn't just for schools. All of us can continue to educate ourselves right through our lives about how to be better at finance. And I'm proud to tell you that it's actually one of the most

**Cymraeg**

Shwmae, croeso i Academi Arian. Helo a chroeso i Academi Arian Money Saving Expert. Martin Lewis ydw i. Rwy'n gyffrous iawn ein bod ni'n creu fersiwn Gymraeg o Academi Arian Money Saving Expert, ond rwy'n hoffi ei alw yn 'Academoney'.

Mae'n ddrwg gen i am fy niffyg sgiliau iaith, ond mae'n wych bod Y Brifysgol Agored yng Nghymru yn cyfieithu'r cwrs i'r Gymraeg. Treuliais flwyddyn yn astudio newyddiaduriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd a gwnes i feithrin gwerthfawrogiad o'r iaith Gymraeg yn ystod fy nghyfnod yno.

Nawr, gadewch i mi roi ychydig o wybodaeth i chi am The Academoney Mae'n bartneriaeth rhwng Money Saving Expert a'r Brifysgol Agored er mwyn rhoi addysg ariannol annibynnol am ddim i chi, yn hollbwysig, drwy gwrs academaidd.
Wrth gwrs, rydym bob amser yn trafod canllawiau a gwybodaeth wych ond, mewn gwirionedd, weithiau mae'n well astudio rhywbeth yn ffurfiol fel y gallwch ddeall yr amrywiaeth o elfennau sy'n cael eu rhoi at ei gilydd er mwyn sicrhau eich bod yn meithrin gwerthfawrogiad go iawn, fel y gallwch wneud penderfyniadau ariannol gwell yn y dyfodol.

Ac un o'r rhesymau dros wneud hyn oedd am ei bod hi'n bwysig rhoi diwedd ar y cylch o benderfyniadau ariannol gwael yn ein cymdeithas. Nid rhywbeth i ysgolion yn unig yw addysg ariannol. Gall pob un ohonom addysgu ein hunain drwy gydol ein bywydau am sut i fod yn well yn ariannol. Ac mae'n fraint gen i ddweud wrthych mai

popular free OpenLearn courses offered by the Open University.

The reason it's being translated now is to help bilingual students, but also because within the health and well-being section of the Open University in Wales students were asked what courses they wanted most and money was one of them, and I'm delighted to hear that. After all, it's integral to everything we do. Being better with money isn't about being rich, but it's about improving your personal well-being and absolutely at the core to many of the decisions we make in life.

So, who's this course for? Well, it would certainly be helpful for anyone who works in the consumer help industries; anyone who wants to improve their own personal finances. It gives you an academic grounding into what's going on with finances, but I think it's useful for anyone. Any adults who might not have a great knowledge of money, and wants to improve it and sit down, taking it seriously, and learn it doesn't take too long. Each block is 2 hours long roughly, and there are six courses.

Well, what I would say to you is give it a go. Take the first step and sign up to ‘Academi Arian’.

Thank you.

hwn yw un o'r cyrsiau OpenLearn am ddim mwyaf poblogaidd sy'n cael ei gynnig gan Y Brifysgol Agored.

Y rheswm pam ei fod yn cael ei gyfieithu nawr yw i helpu myfyrwyr dwyieithog, ond hefyd, yn adran iechyd a lles Y Brifysgol Agored yng Nghymru, gofynnwyd i fyfyrwyr pa gyrsiau roeddent am gael gafael arnynt fwyaf. Roedd hwn yn un ohonynt, ac rwyf wrth fy modd yn clywed hynny. Wedi'r cyfan, mae'n hanfodol i bopeth rydym yn ei wneud. Nid yw bod yn well gydag arian yn ymwneud â bod yn gyfoethog, ond mae'n ymwneud â gwella eich lles personol ac mae hynny wrth wraidd llawer o'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud yn ein bywydau.

Felly, ar gyfer pwy y mae'r cwrs? Wel, byddai yn bendant o fudd i unrhyw un sy'n gweithio yn y diwydiannau cymorth i ddefnyddwyr; unrhyw un sydd am wella ei sefyllfa ariannol bersonol. Mae'n rhoi sail academaidd i'r hyn sy'n digwydd gyda materion ariannol, ond rwy'n credu ei fod yn ddefnyddiol i bawb. I unrhyw oedolion nad oes ganddynt lawer o wybodaeth am arian o bosibl ac sy'n awyddus i newid hynny ac sydd am eistedd i lawr o ddifrif i ddysgu, nid yw'n cymryd gormod o amser. Mae pob bloc tua 2 awr o hyd, ac mae chwe chwrs.

Wel, byddwn yn dweud wrthych am roi cynnig arni. Cymerwch y cam cyntaf a chofrestrwch ar gyfer yr Academi Arian.

Diolch.